# Gwerthuso’r amgylchedd ar gyfer plant a phobl ifanc

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion pan fyddwch yn gwerthuso’r amgylchedd ar gyfer plant a phobl ifanc a theuluoedd. Mae hefyd yn cynnwys cydlynu adnoddau i gwrdd â’u hanghenion ac arwain proses o newid a gwelliant yn yr amgylchedd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. datblygu systemau a gweithdrefnau i fonitro a gwerthuso amgylcheddau
2. sicrhau cydraddoldeb mynediad i amgylcheddau ar gyfer plant neu bobl ifanc ac eraill
3. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i sicrhau bod plant neu bobl ifanc yn teimlo’u bod yn cael eu croesawu, eu parchu a’u gwerthfawrogi
4. grymuso plant neu bobl ifanc ac eraill i werthuso amgylcheddau
5. sicrhau bod amgylcheddau wedi cwrdd â dewisiadau ac anghenion plant neu bobl ifanc
6. sicrhau bod amgylcheddau yn ysgogol ac yn hybu datblygiad holistaidd plant neu bobl ifanc
7. sicrhau bod amgylcheddau yn sensitif i wahanol ddiwylliannau ac ethnigrwydd, yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn darparu delweddau cadarnhaol o bob plentyn neu berson ifanc
8. sicrhau bod amgylcheddau’n cefnogi plant neu bobl ifanc ac eraill drwy brosesau pontio
9. defnyddio adnoddau'n effeithiol i gefnogi plant neu bobl ifanc mewn amgylcheddau
10. sicrhau bod mannau, profiadau a rhyngweithiadau wedi'u cynllunio a’u trefnu’n dda gyda digon o adnoddau ar gyfer plant neu bobl ifanc
11. darparu dyfeisiau ac adnoddau digidol i gefnogi chwarae a dysgu, gan sicrhau bod adnoddau digidol yn cefnogi yn hytrach na disodli profiadau chwarae cyfoethog yn y byd go iawn
12. monitro’r gofal a’r cymorth a gynigir i blant neu bobl ifanc i sicrhau y llwyddir i gwrdd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol ac ieithyddol
13. rhoi arferion ar waith sy’n cefnogi dewisiadau ac anghenion plant neu bobl ifanc ac yn ehangu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o bobl eraill a’r byd ehangach
14. sicrhau bod adnoddau'n ddiogel, yn hylan ac yn addas i’r diben
15. datblygu systemau a gweithdrefnau i fonitro'r defnydd o adnoddau a’u hansawdd
16. nodi a chytuno ar newidiadau i adnoddau mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc ac eraill
17. gweithio ar y cyd â phlant neu bobl ifanc ac eraill i gynllunio ar gyfer datblygiad parhaus

18. paratoi eraill ar gyfer newid a datblygiad mewn ffyrdd sy’n gadarnhaol, yn ysgogol ac yn hybu creadigrwydd
19. annog eraill i arloesi a chynnig cefnogaeth ar gyfer syniadau newydd
20. gwrando ar blant neu bobl ifanc ac eraill yn ystod y broses o newid
21. creu amgylchedd sy’n hybu datblygiad proffesiynol parhaus ac ymarfer sy’n seiliedig ar dystiolaeth
22. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gwerthuso’r amgylchedd ar gyfer plant neu bobl ifanc
23. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth werthuso’r amgylchedd ar gyfer plant neu bobl ifanc

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. datblygiad cyn geni a ffactorau sy'n effeithio ar dwf y ffetws a datblygiad yr ymennydd
2. y patrwm o ran datblygiad o adeg geni hyd at 21 oed
3. ystod o ffactorau cymdeithasol, corfforol ac economaidd sy’n effeithio ar ddatblygiad plant a phobl ifanc
4. sut mae cefnogi plant a phobl ifanc â’r newidiadau y gallant eu profi mewn amgylchedd
5. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar ryngweithiadau plant a phobl ifanc â’r amgylchedd
6. dylanwad diwylliant a chefndir ar amgylcheddau i blant a phobl ifanc
7. sut mae arwain systemau, gweithdrefnau ac arferion i fonitro a gwerthuso’r amgylchedd i blant a phobl ifanc a theuluoedd
8. y mathau o system sy'n addas ar gyfer monitro a gwerthuso amgylcheddau
9. sut mae rheoli a threfnu amgylcheddau ar gyfer plant a phobl ifanc sy’n hwyluso ymlyniadau diogel ac yn cefnogi rheoleiddio emosiynol, llesiant a gwydnwch
10. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth hybu amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc
11. sut mae darparu mannau a rhaglenni o brofiadau a rhyngweithiadau i gefnogi datblygiad plant a phobl ifanc
12. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc
13. sut mae sicrhau bod mannau, profiadau a rhyngweithiadau yn cael eu hasesu am risg ac yn cael eu rheoli fel bod modd cymryd risgiau cadarnhaol
14. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i greu amgylcheddau cadarnhaol
15. sut mae cefnogi eraill i addasu eu hymarfer a’u hamgylchedd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cymryd rhan gyfartal
16. pwysigrwydd arwain eraill wrth ddarparu mannau, profiadau a rhyngweithiadau sy’n adlewyrchu cyfiawnder cymdeithasol, diogelu’r amgylchedd, dinasyddiaeth fyd-eang a dysgu yn yr awyr agored
17. sut mae defnyddio dull gwella ansawdd i gefnogi gwelliant parhaus
18. y mathau o gymorth sydd ei angen gan eraill yn ystod proses o newid
19. sut mae modelu a dangos arferion da, arwain drwy esiampl ac annog a

dylanwadu ar eraill
20. technegau ar gyfer datrys problemau a meddwl yn flaengar
21. deall ymarfer sy’n seiliedig ar dystiolaeth ac ymarfer ar sail ymchwil
22. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i werthuso’r amgylchedd ar gyfer plant a phobl ifanc
23. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gwerthuso’r amgylchedd ar gyfer plant a phobl ifanc
24. theorïau sy'n berthnasol i werthuso’r amgylchedd ar gyfer plant a phobl ifanc
25. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer gwerthuso’r amgylchedd ar gyfer plant a phobl ifanc
26. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth werthuso’r amgylchedd ar gyfer plant a phobl ifanc
27. sut y gall eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth werthuso’r amgylchedd ar gyfer plant a phobl ifanc, a sut i fynd i'r afael â hyn
28. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth werthuso’r amgylchedd ar gyfer plant a phobl ifanc

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Gwerthuso’r amgylchedd ar gyfer plant a phobl ifanc

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD433 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Gwerthuso'r Amgylchedd, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |